



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Polisi Derbyn

| | |
|-----------------------------------|---|
| Dyddiad Cyhoeddi | Mehefin 2018 |
| Dyddiad Adolygu | Mehefin 2021 |
| Awdur | Beth Hughes Rheolwr Recriwtio Dysgwyr |
| Lleoliad y Polisi | BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support |
| Cymeradwywyd y polisi gan: | Tîm Rheoli'r Coleg – 28 Mehefin 2018 |

Os ydych chi am gael y polisi hwn mewn fformat arall - cysylltwch â'r tîm Derbyn ar 01792 284179 neu 01792 890750.

1. **Cyd-destun**

Nod y polisi hwn yw sicrhau triniaeth gyfartal i bawb sydd am gael eu derbyn fel dysgwyr i'r Coleg.

2. **Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn gymwys i ddysgwyr amser llawn a rhan-amser sydd am gofrestru yn y Coleg.

3. **Datganiad o Bwrpas**

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau triniaeth deg i bob ymgeisydd.

Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau o bob sector o'r gymuned. Byddwn yn ystyried pob cais ar sail teilyngdod a gallu, ac ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil.

4. **Y Polisi**

Gwneud cais i'r Coleg

- 4.1 Mae gwybodaeth gywir a chyfoes ar gael i bawb sy'n gwneud ymholiadau drwy ofyn i'r Coleg am brosbectws cyfredol neu drwy gyrchu gwefan y Coleg.
- 4.2 Bydd pob cwrs amser llawn a rhai cyrsiau rhan-amser yn cynnwys cyfweliad fel rhan o'r broses dderbyn.
- 4.3 Bydd gofynion derbyn eu hunain gan raglenni unigol, yn seiliedig ar gymwysterau, profiad ac addasrwydd. Bydd dysgwyr yn cael gwybod am y rhain yn gynnar yn y broses ymgeisio.
- 4.4 Gall ymgeiswyr sy'n ffugio cymwysterau derbyn wynebu camau disgyblu neu gellir gwrthod lle iddynt.
- 4.5 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ag anableddau, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dysgu, yn cael eu trin yn deg. Bydd pob addasiad rhesymol i ddarpariaeth yn cael ei wneud i sicrhau bod dysgwyr a phobl eraill ag anabledd heb fod o dan anfantais sylweddol. Bydd pob datgeliad o anabledd yn cael ei drin yn sensitif a'i ddefnyddio dim ond er budd posibl y dysgwr. Gall ymgeiswyr ddatgelu eu hanableddau a'u hanghenion dysgu ar y ffurflen gais amser llawn.
- 4.6 Safonau'r Gymraeg
 - Gall ymgeiswyr sy'n dymuno trafod eu cais yn Gymraeg wneud hynny gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg o'r Tîm Derbyn/A&G.
 - Bydd pob ymgeisydd yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog.

- Rhoddir yr opsiwn i ymgeiswyr sydd wedi datgan eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu sy'n dod o ysgol uwchradd Gymraeg gael eu cyfweliad yn Gymraeg.
- Hyrwyddir diwylliant a naws Gymreig yn rhagweithiol yn y Coleg.
- Rhestrir y cyrsiau/modylau y gellir eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar y wefan ac fe'u hamlygir yn y prospectws.

4.7 Gall y Coleg redeg dosbarthiadau ar gyfer cyrsiau a phynciau dim ond os oes nifer ddigonol o fyfyrwyr. Os nad yw'n ymarferol i gynnal cwrs neu gynnig pwnc caiff dysgwyr wybod am y dewisiadau eraill sydd ar gael.

4.8 Rhaid i ymgeiswyr:

- fodloni'r holl ofynion cyn-gwrs, gan gynnwys cwblhau'r holl waith papur cysylltiedig yn gywir erbyn unrhyw ddyddiad cau a nodwyd, drwy fynychu'r holl apwyntiadau a drefnwyd gan y Coleg, a thrwy gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r cais fel y bo angen;
- bodloni gofynion derbyn penodol unrhyw raglen neu gwrs;
- os yw'n gymwys, cyflwyno geirdaon boddhaol i ategu'r cais;
- cytuno i dalu unrhyw ffioedd gofynnol;
- cytuno i ddilyn Côd Ymddygiad Myfyrwyr y Coleg;
- cadarnhau eu bod yn derbyn neu'n gwrthod unrhyw le a gynigir erbyn y dyddiad a nodwyd;
- cwblhau datgeliad meddygol a ffurflen gydsyniad os ydyn nhw'n fyfyrwyr amser llawn.

4.9 Caiff lleoedd eu rhoi ar sail:

- y dysgwr yn bodloni'r amodau derbyn
- y lleoedd sydd ar gael

4.10 Ymgeiswyr dan 16 oed – Fel arfer, ni chaniateir mynediad i raglenni amser llawn i ymgeiswyr dan 16 oed. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan na fydd yn bosib diwallu anghenion addysgol yr ymgeisydd yn yr ysgol, caiff y cais ei ystyried. Rhaid i bob cais o'r fath gael ei ystyried gan y Rheolwr Ysgolion a fydd yn ymgysylltu â'r AALI, yr ysgol, cyfadrannau perthnasol y Coleg, y rhieni a'r plentyn.

Mae'n rhaid i bob myfyriwr ysgol 14-16 oed Cyfnod Allweddol 4 sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau yn y Coleg fel rhan o'u hastudiaethau Blwyddyn 10 ac 11 ddilyn y broses gofrestru 14-16 (Atodiad 4).

Ni ellir cofrestru myfyrwyr dan 16 oed ar gyrsiau rhan-amser gyda'r hwyr.

- 4.11 Ymgeiswyr ESOL amser llawn ac ymgeiswyr nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt: Gellir gofyn i'r ymgeiswyr hyn ddarparu tystiolaeth o'u cymwysterau ESOL, neu gwblhau asesiad Saesneg i asesu a yw lefel eu sgiliau Saesneg yn briodol ar gyfer y cwrs.

Cymwysterau estron – rhaid i'r rhain fod yn gyfwerth â gofynion mynediad penodol y cwrs (defnyddir UKNARIC er mwyn cymharu)

- 4.12 Myfyrwyr rhyngwladol – caiff myfyrwyr rhyngwladol eu derbyn ar sail y meini prawf canlynol:

- Sgôr IELTS ar gyfer UKVI, mae'n rhaid i hyn fodloni gofynion mynediad penodol y cwrs
- Cymwysterau estron – rhaid i'r rhain fod yn gyfwerth â gofynion mynediad penodol y cwrs (defnyddir UKNARIC er mwyn cymharu)
- Rhaid i fyfyrwyr fodloni'r holl feini prawf a osodwyd yn nghanllaw polisi haen 4 yr UKVI sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd:

<https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-application-for-uk-visa-as-tier-4-student>

Yr Hawl i Wrthod Cais

- 4.13 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod derbyn unrhyw ymgeisydd:

- os nad yw'n gallu bodloni'r gofynion derbyn;
- os oes collfarn droseddol 'berthnasol' gan yr ymgeisydd sydd naill ai heb ddarfod neu ni all byth ddarfod (gweler Adran 5 isod);
- os yw wedi cael ei wahardd o'r blaen o'r Coleg hwn neu sefydliad addysg arall. (Cyn gwneud unrhyw benderfyniad, bydd pob ymdrech rhesymol yn cael ei wneud i gael geirdaon gan sefydliad/au addysg blaenorol. Pan gânt eu darparu, gellir ystyried geirdaon wrth benderfynu cynnig lle neu beidio);
- os yw wedi mynychu'r Coleg hwn neu sefydliad addysg arall o'r blaen a heb gwblhau cyrsiau, gan gynnwys pob asesiad allanol, heb reswm da;
- os yw wedi bod yn destun Gweithdrefnau Disgyblu'r Coleg ac nid yw wedi dilyn yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr achos disgyblu. Gall dysgwyr sy'n cael eu haillderbyn i'r Coleg fod yn destun amodau rhybudd ysgrifenedig olaf;
- pe gallai fod yn fygythiad neu'n berygl i eraill neu i'w hunain;
- os oes dyledion heb eu talu gan yr ymgeisydd gyda'r Coleg;
- os yw'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais neu ffurflen gofrestru.

- 4.14 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wneud penderfyniad terfynol ar dderbyn cais neu gofrestrriad i'r Coleg neu beidio.

- 4.15 Os yw'r Coleg yn cynnig lle ac yna'n darganfod bod yr ymgeisydd wedi ymrwymo i weithredu a fyddai'n cael ei ystyried yn gamymddwyn dybryd o dan Weithdrefnau Disgyblu'r Coleg, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl, boed a yw'r cwrs neu'r rhaglen wedi dechrau neu beidio.
- 4.16 Bydd ymgeiswyr sydd heb lwyddo i gael lle ar y cwrs y maen nhw wedi gwneud cais amdano yn cael cynnig cyngor ac arweiniad priodol i drafod dewisiadau eraill.

5. Collfarnau Troseddol a Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

- 5.1 Os yw'r Coleg yn gwybod am gollfarn droseddol bydd yn dilyn y broses a amlinellir yn y Polisi Cyn-droseddwyr (myfyrwyr).

Mae'n rhaid i bob myfyriwr ar gyrsiau sy'n cynnwys lleoliadau gyda phlant neu oedolion agored i niwed gael tystysgrif DBS gyfredol a gyflawnwyd yn y tri mis diwethaf (os gan sefydliad arall) neu o fewn y tair blynedd ddiwethaf os cafodd ei gyflawni gan y Coleg.

6. Apeliadau

- 6.1 Os yw ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad i beidio â'i dderbyn i'r Coleg, gall apelio drwy ddefnyddio Gweithdrefnau Apelio'r Coleg. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ailystyried dim ond os nad oedd wedi dilyn Polisi Derbyn y Coleg neu bolisi perthnasol arall a/neu mae'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth oedd heb ei datgelu yn gynharach yn y broses dderbyn.

7. Dogfennau Cysylltiedig

- 7.1 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
- Polisi Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Côd Ymddygiad Myfyrwyr
- Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr
- Polisi Cyn-droseddwyr
- Gweithdrefnau Apelio'r Coleg
- Hysbysiadau Preifatrwydd y Coleg

8. Dyddiad y Polisi ac Adolygiad

- 8.1 Dyddiad y polisi hwn yw Mehefin 2018. Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd. Dyddiad yr adolygiad nesaf yw Mehefin 2021.

9. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Atodiad 1: Y Broses Dderbyn ar gyfer Ymgeiswyr Amser Llawn

| Camau | Eithriadau |
|---|---|
| <p>Mae Ffurflen Gais yn cael ei derbyn trwy UCAS Progress, gwefan y Coleg neu ar bapur.</p> <p>Yn achos ceisiadau papur, mae llythyr dal yn cael ei anfon at yr ymgeisydd o fewn tri diwrnod gwaith yn ei hysbysu y bydd dyddiad cyfweld yn cael ei drefnu maes o law.</p> <p>Mae ceisiadau a dderbyniwyd trwy wefan y Coleg ac UCAS Progress yn cael eu cydnabod yn awtomatig.</p> <p>Ar y cam hwn, gofynnir i bob ymgeisydd os ydynt am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.</p> <p>Gall ymgeiswyr ddatgelu eu hanableddau a'u hanghenion dysgu ar y ffurflen gais amser llawn a gofyn am addasiadau i'r broses gyfweld.</p> | <p>Mae pob cais ar gyfer cyrsiau Addysg Uwch amser llawn yn cael eu prosesu trwy system ymgeisio UCAS.</p> <p>Os yw collfarnau troseddol yn cael eu datgelu mae'r polisi Cyn- droseddwyr yn cael ei weithredu.</p> |
| <p>Trefnir Cyfweliadau Cyfadran gyda'r aelod o staff priodol.</p> <p>Anfonir gwahoddiad i gyfweliad i'r ymgeisydd gan roi o leiaf saith niwrnod o rybudd. Anfonir gwahoddiadau drwy e-bost fel arfer oni bai fod yr ymgeisydd wedi gofyn am lythyr.</p> <p>Yn ystod y broses Derbyn, mae'r ymgeisydd yn derbyn yr wybodaeth ganlynol am y rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion derbyn • Cynnwys a math o asesiad • Cyfleoedd dilyniant • Disgwyliadau'r Coleg e.e. Côt Ymddygiad Myfyrwyr • Asesiad cyn-gofrestru • Y cymorth dysgu sydd ar gael i'r ymgeiswyr hynny sydd ag anghenion ychwanegol • Gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael • Unrhyw gostau cwrs ychwanegol e.e. offer, llyfrau ac ati • Cymwysterau a gaiff eu hennill os yw'r cwrs yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus | <p>Os yw'r ymgeisydd wedi'i wahardd yn y gorffennol, byddant yn dilyn y broses aildderbyn wedi gwaharddiad.</p> <p>Mae'r adran ILS yn trefnu eu cyfweliadau'n uniongyrchol. Addaswyd y broses i fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion myfyrwyr unigol.</p> <p>Plymwaith ac Adeiladu: Trefnir prawf addasrwydd i ddilyn cyfweliad y gyfadran.</p> <p>Trefnir prawf addasrwydd gan Gerbydau Modur a Pheirianeg os yw'n briodol.</p> <p>Mynediad i'r Gyfraith – mae gan ymgeiswyr brawf sgrinio, ymarfer ysgrifennu rhydd a chyfweliad.</p> <p>Harddwch a Thrin Gwallt – Cwblheir prawf sgrinio ar bapur cyn y cyfweliad.</p> <p>Galwedigaethau Mynediad i Iechyd – gwahoddir pob ymgeisydd i <i>sesiwn gwybodaeth fynediad</i></p> |

| | |
|---|--|
| <p>Yr ymgeisydd yn mynychu'r cyfweiliad cyfadran.</p> <p>Ar y cam hwn bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cael cynnig lle ar y cwrs o'u dewis ac yn cael dyddiad ac amser cofrestru/cyfweiliad ym mis Gorffennaf neu Awst.</p> <p>Mae cadarnhad o'r cynnig yn cael ei anfon trwy'r e-bost neu lythyr i'r rhai sydd wedi gwneud cais amdano. Mae'r ymgeisydd yn derbyn ei gynnig o gwrs ac yn cwblhau'r datgeliad meddygol a'r ffurflen gydsyniad.</p> <p>I ymgeiswyr heb e-bost caiff y cynnig a'r ffurflenni eu hanfon trwy'r post.</p> | <p>Os nad yw ymgeisydd yn cael cynnig lle ar y cwrs o'i ddewis mae cyfweiliad cyfadran arall yn cael ei drefnu, os yw'n briodol.</p> <p>Os nad yw ymgeiswyr yn mynychu'r cyfweiliad cyfadran cyntaf, mae un newydd yn cael ei drefnu'n awtomatig iddynt. Os nad ydynt yn dod i'r ail gyfweiliad mae llythyr/e-bost yn cael ei anfon atynt yn gofyn a hoffon nhw gael un. Gofynnir i ymgeiswyr a hoffon nhw gael cyfweiliad arall neu ysgrifennir atynt gyda manylion dyddiad cyfweiliad arall.</p> |
| <p>Ar ôl canlyniadau TGAU (nid ar gyfer cofrestradau Gorffennaf), mae'r ymgeisydd yn dod i gyfweiliad cofrestru ac, os ydyn wedi llwyddo yn y gofynion mynediad, cânt eu cofrestru ar eu cwrs.</p> <p>Os nad yw'r myfyriwr wedi bodloni'r gofynion mynediad ond mae'r darlithydd yn cefnogi cofrestru'r myfyriwr ar y cwrs, rhaid i Ddeon y Gyfadran neu'r LAM gymeradwyo'r penderfyniad.</p> | <p>Os nad yw'r ymgeisydd yn dod i'r cyfweiliad cofrestru mae staff y gyfadran yn cysylltu â nhw i aildrefnu'r cyfweiliad neu i gael gwybod pam nad ydynt wedi dod.</p> <p>Os nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion derbyn caiff ei gyfeirio at gwrs lefel is mewn maes priodol.</p> <p>Os yw'r ymgeisydd yn penderfynu nad yw am gofrestru ar y cwrs y gwnaethpwyd cais amdano yn wreiddiol, caiff ei gyfeirio yn ôl i'r tîm Cyngor ac Arweiniad neu Gyrfa Cymru.</p> |

Atodiad 2: Y Broses Dderbyn ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser

| Camau | Eithriadau |
|--|--|
| <p>Os nad oes angen cael cyfweiliad ar gyfer y cwrs bydd yr ymgeisydd yn mynd yn syth i gofrestru. Gall ymgeiswyr hefyd gofrestru'n uniongyrchol trwy www.coleggwyrabertawe.ac.uk ar gyfer cyrsiau lle nad oes angen cyfweiliad.</p> | |
| <p>Os oes rhaid cael cyfweiliad caiff ei gynnal gan staff y gyfadran. Tim y gyfadran fydd yn penderfynu a oes angen cyfweiliad ar gyfer y cwrs.</p> <p>Yn ystod y broses Dderbyn mae hawl gan yr ymgeisydd gael yr wybodaeth ganlynol am y rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion derbyn • Cynnwys a math o asesiad • Cyfleoedd dilyniant • Disgwyliadau'r Coleg e.e. Côd Ymddygiad Myfyrwyr • Y cymorth dysgu sydd ar gael i'r ymgeiswyr hynny sydd ag anghenion ychwanegol • Gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael • Unrhyw gostau cwrs ychwanegol e.e. offer, llyfrau ac ati • Y cymwysterau a gaiff eu hennill | <ul style="list-style-type: none"> • Os yw'r myfyriwr wedi cael ei wahardd yn y gorffennol mae cyfweiliad gyda'r Deon Cyfadran priodol yn cael ei drefnu. <p>Os yw collfarnau troseddol yn cael eu datgelu mae'r Polisi Cyn-droseddwyr yn cael ei weithredu</p> |
| <p>Ar y cam hwn bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael cynnig lle ar y cwrs o'u dewis.</p> | |
| <p>Bydd MIS yn derbyn Ffurflen Gofrestru Ran-amser a thâl (os yw'n briodol).</p> | |

Atodiad 3: Y Broses Dderbyn ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol

Camau

- Rhaid i ddarpar fyfyrwyr gwblhau ffurflen gais ryngwladol yn llawn.
- Rhaid i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth i fodloni gofynion mynediad cwrs - cyfwerth â Lefel 2 a IELTS ar gyfer Tystysgrif UKVI.
- Caiff cymwysterau eu gwirio gan y tim rhyngwladol (gwasanaeth gwirio UKNARIC/IELTS). Darperir cyfieithiadau os yw'n berthnasol.
- Rhaid i fyfyrwyr ddarparu copi o'u pasbort ac unrhyw dudalennau fisa.
- Os yw'n fodlon bod y myfyriwr yn bodloni ein gofynion academaidd a'i fod wedi darparu dogfennau hunaniaeth dilys, y Rheolwr Rhyngwladol sy'n cynnal y cyfweiliad Skype cyntaf gan ddefnyddio rhestr o gwestiynau credadwyedd/cyfweiliad wedi'u paratoi ymlaen llaw.
- Os yw'n fodlon bod y myfyriwr yn gredadwy, byddwn yn trefnu ail gyfweiliad dros Skype gyda'r staff cwricwlwm perthnasol.
- Os yw'r staff cwricwlwm yn fodlon, byddwn yn cyhoeddi cynnig amodol i'w gytuno a'i lofnodi gan y myfyriwr. Mae'r amodau'n cynnwys: taliad llawn o ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf; tystiolaeth o gyllid cynnal; cysyniad rhiant i deithio a byw'n annibynnol yn y DU ac unrhyw wybodaeth benodol sy'n ofynnol i UKVI, e.e. tystysgrifau TB. Rydym hefyd yn datgan ein polisi ad-daliadau yn y llythyr cynnig amodol sy'n datgan na fydd unrhyw fyfyrwr nad yw'n cael ei ystyried yn ddilys gan UKVI yn gymwys am ad-daliad. Bwriad hyn yw rhwystro ceisiadau nad ydynt yn "ddilys".
- Unwaith y bodlonir yr amodau a llofnodir y cynnig yn ffurfiol gan y myfyriwr, byddwn yn cyhoeddi CAS, sef ein cynnig diamod.
- Darperir cefnogaeth fisa i bob myfyriwr os bydd ei hangen.
- Os ceir fisa, neilltuir darparwr llety mewn cartref (mae gennym bortffolio o deuluoedd cynnal ag asesiad risg ac â gwiriadau GDG). Rydym hefyd yn cyhoeddi pecyn cyn cyrraedd sy'n darparu cyngor ar astudio yn y DU ac opsiynau teithio i sicrhau eu bod yn cyrraedd yn Abertawe yn ddiogel.
- Os derbynnir fisa'r myfyriwr, y Coleg fydd yn dod yn noddwr haen 4 iddo.

Atodiad 4: Proses Dderbyn ar gyfer y rhaglen ysgolion.

| Camau | Eithriadau |
|--|--|
| <p>Ebrill/Mai: Y ffurflen gais yn cael ei derbyn a Rhif Adnabod yn cael ei greu.</p> | <p>Os yw'r myfyriwr wedi cael ei wahardd yn y gorffennol mae cyfweiliad yn cael ei drefnu gyda'r Cydlynnydd 14-16 ac Arweinydd Cwricwlwm y cwrs.</p> |
| <p>Mai/Mehefin: Mae'r Rheolwr Ysgolion yn trefnu cyfweiliadau i fyfyrwyr mewn ymgynghoriad â'r cyswllt ysgolion a'r cyfleusterau. Mae'r cyfadrannau'n ymgymryd â cyfweiliadau mynediad.</p> <p>Yn ystod y broses dderbyn, mae hawl gan yr ymgeisydd gael yr wybodaeth ganlynol am y cwrs:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cerdyn gwybodaeth am y cwrs • Dillad a chostau • Y cymwysterau a enillir • Cyfleoedd dilyniant • Cynnwys a math o asesiad • Unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer anghenion cymorth | <p><i>Myfyrwyr unigol sy'n ymgeisio am ddarpariaeth lenwi ôl-16. Caiff y rhain eu cyfweild gan y Rheolwr Ysgolion a'r Arweinydd Cwricwlwm. Dyrennir lleoedd os oes lle ar gael yn unig ym mis Medi.</i></p> |
| <p>Mehefin: Mae cyfadrannau yn cwblhau gweithgareddau sefydlu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Ysgolion</p> <p>Ailgofrestriad o flwyddyn 10 i 11 ar raglenni 2 flwyddyn.</p> | |
| <p>Mehefin/Gorffennaf: Cadarnhau lleoedd, mae'r Rheolwr Ysgolion a'r Arweinwyr Cwricwlwm yn cyd-drafod er mwyn cadarnhau lleoedd i fyfyrwyr. Bydd y Rheolwr Ysgolion yn anfon rhestr o fyfyrwyr i'r cyswllt ysgolion.</p> <p>Mae swyddfa'r gyfadran yn anfon llythyrau croesawu, costau cyrsiau penodol (a baratowyd gan y Gyfadran) a phhecynnau gwybodaeth i rieni.</p> <p>Y rhieni sy'n dychwelyd unrhyw ffurflenni i gyfadrannau cyn dechrau'r cwrs.</p> | <p><i>Os na dderbynnir y myfyriwr, rhaid rhoi'r rheswm i'r ysgol yn gyntaf. Gallai'r ysgol apelio gyda geirdaon pellach i'r Rheolwr Ysgolion a'r Arweinydd Cwricwlwm. Yna, anfonir llythyr at y rhieni a'r myfyriwr.</i></p> |
| <p>Gorffennaf: Mae'r Rheolwr Ysgolion yn cytuno ar amodau a thelerau gydag ysgolion</p> | |
| <p>Medi: Cofrestru myfyrwyr 14-16 newydd.</p> | |

Atodiad 5: Y Broses Dderbyn ar gyfer Myfyrwyr Amser Llawn a myfyrwyr Addysg Uwch Rhan-amser

| Camau Amser Llawn | Eithriadau Amser Llawn |
|---|---|
| <p>Mae ffurflen gais yn cael ei derbyn gan UCAS. Mae manylion am y cais yn cael eu rhoi ar QL ac mae Rhif Adnabod myfyriwr yn cael ei greu.</p> <p>Anfonir y ffurflen gais i arweinydd y cwrs ar ffurf PDF am benderfyniad.</p> | <p><i>Ar gyfer cyrsiau AU rhan-amser nad ydynt yn gyrsiau UCAS, dilynir y broses dderbyn i fyfyrwyr rhan-amser.</i></p> <p><i>Os datgelir collfarnau troseddol, mae'r Polisi Cyn-droseddwr yn cael eu gweithredu.</i></p> <p><i>Ar gyfer cyrsiau breiniol Sir Gaerloyw, mae Tîm Derbyn y Brifysgol fynediad at y ceisiadau UCAS. Anfonir copi PDF o'r ffurflen gais at y tîm derbyn AU (CGA). Ar ôl hyn, anfonir y cais at arweinydd y cwrs er mwyn gwneud penderfyniad terfynol. Mi fydd y penderfyniad yn cael ei e-bostio at dîm Derbyn Prifysgol Caerloyw ac yn cael ei ychwanegi i UCAS.</i></p> |
| <p>Mae arweinydd y cwrs yn rhoi cynnig amodol neu ddiamedd i'r ymgeisydd ar sail y ffurflen gais. Caiff hyn ei fewnbynnu i UCAS gan y tîm Derbyn AB.</p> <p>Trefnir cyfweiliad os yw'n briodol.</p> <p>Yn ystod y broses dderbyn a chofrestrï, darperir yr wybodaeth ganlynol i'r ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffioedd cwrs a gwybodaeth am SFW • Gofynion mynediad • Cymwysterau a gafwyd • Cyfleoedd dilyniant • Cod Ymddygiad Myfyrwyr – Disgwyliadau'r Coleg (datgeliad meddygol a chydsyniadau a gwblhawyd yn ystod cofrestrï) • Y Cymorth dysgu sydd ar gael (ar gyfer unigolion sydd ag anghenion ychwanegol) • Unrhyw gostau cwrs ychwanegol • Amodau a Thelerau'r Brifysgol | |

| | |
|---|--|
| <p>Pan fo ymgeisydd yn gwneud dewis cadarn / yswiriant, mi fydd y QL yn cael ei ddiweddarau.</p> <p>Os yw ymgeisydd yn derbyn y cynnig (dewis cadarn), anfonir llyfryn cynnig cwrs AU electronig atynt drwy e-bost a diweddarir y QL.</p> <p>Ym mis Awst, anfonir e-bost at yr ymgeiswyr sy'n cynnwys dyddiad ac amser cofrestru ym mis Medi.</p> | |
|---|--|

| CamauStages Rhan-amser | CamauStages Rhan-amser |
|--|---|
| <p>Mae angen i fyfyrwyr AU Rhan-amser ymgeisio ar gyfer eu cyrsiau drwy lenwi ffurflen gais AU ar wefan y coleg. Mi fydd tîm Derbyn AU yn derbyn y ffurflen yn awtomatig drwy ebost a diweddarir y wybodaeth ar QL. Trefnir cyfweiliad gydag Arweinydd y Cwrs. Os gwneir cynnig, gall yr ymgeisydd gofrestru'n uniongyrchol drwy gwblhau ffurflen gofrestru AU a thalu ffioedd y cwrs.</p> <p>Yn ystod y broses Derbyn a chofrestri mi fydd gan yr ymgeisydd yr hawl i wybod y wybodaeth ganlynol am y rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffioedd y cwrs a gwybodaeth am SFW • Gofynion mynediad • Cymwysterau a enillir • Cyfleoedd dilyniant • Cod ymddygiad myfyrwyr – disgwyliadau'r coleg • Cymorth dysgu sydd ar gael (i unigolion sydd ag anghenion ychwanegol) • Unrhyw gostau ychwanegol i'r cwrs <p>Pan fydd unigolyn yn derbyn cynnig i astudio cwrs AU rhan-amser, ebostir llyfryn cynnig cwrs AU electronig ato/ati drwy ebost.</p> | <p>Prentisiaethau Uwch</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i bob prentis Uwch gyflwyno cais trwy lenwi ffurflen gais AU Rhan-amser ar-lein. Fe fydd hyn yn sicrhau bod copi o fanylion yr ymgeisydd gennym ar y system • Ar ôl derbyn ceisiadau, bydd tîm Derbyn AU yn cysylltu ag arweinwyr y rhaglenni i wirio a yw'r ymgeiswyr yn ddysgwyr Rhan-amser neu'n brentisiaid. Os ydynt yn brentisiaid, bydd arweinwyr y rhaglen yn rhoi gwybod i'r tîm Derbyn AU os oes cynnig wedi'i wneud ac os yw'r ymgeisydd wedi cofrestri ar gyfer y rhaglen brentisiaeth. • Bydd cynnig yn cael ei anfon drwy ebost a fydd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i fyfyrwyr AU • Mi fydd y broses gofrestri yn parhau ar sail ad-hoc – rhaid i brentisiaid gwblhau ffurflen gofrestri AU. <p>Os datgelir unrhyw euogfarnau rhaid gweithredu'r polisi Cyn-droseddwy.</p> |

Atodiad 6: Y Broses Dderbyn ar gyfer Myfyrwyr Dysgu Seiliedig ar Waith

| Stages | Notes |
|---|---|
| <p>Derbynnir ffurflen gais gan y tîm Derbyn drwy'r wefan/proses UCAS neu ar ffurf bapur. Mewnbynnir y manylion ar QL (os ar bapur neu UCAS) neu cânt eu mewnfario os drwy'r we a chaiff rhif myfyriwr ei greu.</p> | <p><i>Os datgelir euogfarnau troseddol, gweithredir y Polisi Cyn-droseddwyr.</i></p> |
| <p>Os yw'r ymgeisydd yn nodi ar y ffurflen gais fod ganddynt leoliad gwaith, trosglwyddir y manylion i Hyfforddwyr Dysgu DSW.</p> <p>Trefnir sgrinio WEST a chaiff y myfyriwr ei gofrestru. (Mae angen hyn er mwyn iddynt gwblhau WEST).</p> <p>Cynhelir gwiriadau Iechyd a Diogelwch ar y darpar gyflogwr.</p> | <p><i>Caiff holl ymgeiswyr prentisiaethau Cerbydau Modur eu cyfweld gan y tîm DSW Cerbydau Modur ac mae ganddynt brawf addasrwydd. Cânt gynnig o le os ydynt yn bodloni'r gofynion. Mae'r tîm hefyd yn helpu i ddod o hyd i leoliadau.</i></p> <p><i>Mae Cerbyd Modur Amser Llawn yn cael eu hysbysu ar gynnal cyfweiliadau fel y gallant roi gwybodaeth am yr opsiynau Amser Llawn.</i></p> <p><i>Os yw'n briodol, cânt eu hatgyfeirio'n ôl at y tîm Derbyn am gyfweiliad Amser Llawn.</i></p> |
| <p>Os nad yw'r ymgeisydd yn gadael yr ysgol ac NAD oes lleoliad ganddynt, trosglwyddir eu manylion i'r tîm Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol a fydd yn cysylltu â nhw ac yn cynnig cefnogaeth.</p> <p>Mae'r tîm Derbyn yn cadw taenlen o'r holl ymgeiswyr y trosglwyddwyd eu manylion i'r tîm Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol. Trosglwyddir ymgeiswyr yn ôl os hoffent gael cyfweiliad am gwrs Amser Llawn.</p> | |
| <p>Os yw'r ymgeisydd yn gadael yr ysgol ac NAD oes ganddo leoliad, bydd y tîm Derbyn yn cysylltu ag ef am Gyngor ac Arweiniad a chynigir cyfweiliad iddo ar gyfer cwrs Amser Llawn.</p> <p>Hefyd, rhoddir cyngor iddo ar sut i ddod o hyd i leoliad ac anfonir dolenni i wefannau. Mae'r tîm Derbyn yn cadw mewn cysylltiad â'r ymgeisydd felly os ydy'n penderfynu cael cyfweiliad Amser Llawn, gellir trefnu hynny.</p> | |
| <p>Unwaith y bydd ymgeisydd wedi cael lleoliad, caiff y manylion eu nodir y manylion a'u trosglwyddo i Hyfforddwyr Dysgwyr DSW. Trefnir sgrinio WEST.</p> | |